



WYTHNOS YR YMDDIRIEDOLWYR

10 o'r cynghorion gorau

i gael eich stori yn y papur lleol neu ar radio lleol ar gyfer Wythnos Ymddiriedolwyr

1. **Byddwch yn glir ynghylch yr hyn rydych chi am ei gael** - ydych chi'n gobeithio y bydd stori yn y papur lleol yn helpu i ddenu pobl i'ch digwyddiad? Neu ydych chi am weld erthygl yn adrodd hanes y digwyddiad? Mae llawer o wahanol ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o'ch elusen a'r Wythnos Ymddiriedolwyr - bydd canolbwyntio ar un agwedd yn fwy tebygol o fod yn effeithiol.
2. **Straeon lleol i bobl leol** - mae ystafelloedd newyddion lleol yn derbyn nifer fawr o ddatganiadau'r wasg bob dydd, ond nid yw nifer ohonynt yn berthnasol i'w hardal nhw. Gwnewch yn siŵr bod eich pennawd a thestun y datganiad wedi'u targedu ar ardal yr ystafell newyddion dan sylw - a dylech gynnwys llawer o fanylion lleol.
3. **Byddwch yn agos atoch ac yn bersonol** - mae newyddiadurwyr lleol yn hoffi straeon newyddion da am llwyddiant pobl yn eu hardal. Ceisiwch gynnwys cymaint o fanylion am bobl ag y gallwch chi. Os oes modd, dylech gynnwys dyfyniadau a lluniau o astudiaethau achos a nodwch eu bod nhw'n hapus i gael eu cyfweld ar y radio.
4. **Dangoswch y ffeithiau** - mae newyddiadurwyr bob amser yn brysur felly maen nhw'n hapus iawn pan fydd eraill yn gwneud y gwaith iddyn nhw. Ychwanegwch restr o'r mathau o ffeithiau a allai ychwanegu cig a gwaed at y stori mewn rhestr ar waelod y datganiad.
5. **Defnyddio sêr** - os ydych chi'n gwahodd sêr lleol i'ch digwyddiad, nodwch hynny yn y datganiad. Os ydych chi'n rhyddhau'r datganiad ar ôl y digwyddiad ac roedd rhywun enwog yn bresennol, ychwanegwch hwnnw hefyd. Os yw unrhyw sêr yn cefnogi gwaith eich elusen, gofynnwch iddyn nhw am gyfweiliad neu ddyfyniadau.
6. **Byddwch yn gryno** - mae'n rhaid i ddatganiadau'r wasg ennyn diddordeb y darllynydd. Defnyddiwch iaith gryno a brawddegau byr - a dylech gynnwys yr wybodaeth bwysicaf/mwyaf diddorol yn y llinellau cyntaf.
7. **Canmolwch eich targed** - darllenwch y papur rydych yn ei dargedu a gwnewch nodyn o newyddiadurwr sy'n ysgrifennu straeon newyddion ysgafnach. Dilynwch eich datganiad i'r wasg â galwad ffôn i'r newyddiadurwr dan sylw, gan ddweud eich bod chi'n mwynhau darllen ei erthyglau a bod stori gennyh chi a allai fod o ddiddordeb iddo neu iddi.
8. **Byddwch ar gael** - os oes modd, dylech gynnwys rhif cyswllt yn y datganiad i'r wasg y gall newyddiadurwyr ei ddefnyddio y tu allan i oriau gwaith arferol. Mewn gorsafoedd radio yn arbennig bydd newyddiadurwyr yn gweithio dros y Sul a gyda'r hwyr - byddan nhw'n ddiolchgar os ydych chi ar gael pan nad yw pobl eraill ar gael.
9. **Peidiwch â rhoi'r ffidil yn y to** - os nad oedd eich datganiad i'r wasg wedi denu newyddiadurwr i'ch digwyddiad rhyddhewch ddatganiad i'r wasg arall ar ôl hynny, gan gynnwys cymaint o fanylion lleol â phosibl ("i'w gynnal yng nghanolfan x, ar ffordd y, oddi ar gylchdro z ...").
10. **Mae'n rhaid paratoi and peidiwch ofni** - ni fydd newyddiadurwyr lleol am eich drysu ond gallwn ofni cwestiynau anodd. Ma' nhw am i'r cyfweiliad fod yn llwyddiant, felly ceisiwch feddwl pa fath o gwestiynau a gall fod yn anodd er mwyn paratoi atebion fel eich bod yn medru mwynhau'r yhoeddusrwydd heb boeni!